Buddion

# Darllen

"Wedi i chi ddysgu darllen, byddwch yn rhydd am byth". – Frederick Douglass

"Mae llyfrau'n hud a lledrith cludadwy unigryw". – Stephen King

"Heddiw'n ddarllenwr, yfory'n arweinydd". – Margaret Fuller

Mae Darllen er Pleser yn datblygu:

·geirfa ·gramadeg ·arddull ysgrifennu ·sillafu

Mae datblygiad llythrennedd yn digwydd pan rydym yn DEALL beth rydym yn ei ddysgu.

Mae plant bach sy'n gwybod mwy o eiriau'n darllen yn well yn yr ysgol nes ymlaen, a ....

Mae plant oed ysgol sy'n darllen er pleser yn perfformio'n well ymhob pwnc, yn cynnwys MATHEMATEG!

Sawl GAIR mae plant wedi eu clywed erbyn iddynt gyrraedd 3 oed?

48 miliwn gair – rhieni sydd â swyddi proffesiynol

13 miliwn gair – teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau

Mae plant o gwmpas y byd sy'n tyfu i fyny mewn tlodi'n cael trafferth i ddarlllen, OND ....

Mae astudiaethau'n dangos bod plant yn dechrau darllen yn well wrth ddefnyddio llyfrau.

Mae darllen er pleser yn effeithio'n gryfach ar gyrhaeddiad addysgol na statws economaidd-gymdeithasol y rhieni!

# 6 SYNIAD HWYLIOG I ANNOG DARLLEN ER PLESER



GWNEWCH AMSER I DDARLLEN AR GOEDD

Pwy sydd ddim yn dwlu ar stori a chwtsh! Mae ymchwil niwrowyddoniaeth yn cadarnhau bod cysylltiadau rhwng darllen naratif mewn plentyndod, creu cof a theimladau o les gydol oes. Mae darllen yr un llyfr dro ar ôl tro'n creu llwybrau niwrol sy'n cysylltu ag emosiynau cadarnhaol y gallwn dychwelyd atynt gydol ein bywydau.

DARLLENWCH Y PETHAU I GYD!

Mae storïau'n agoriad bendigedig i fydoedd gwahanol, ond nid dyna'r cyfan – mae llawer o blant yn cael eu denu at lyfrau ffeithiol, ac mae comics yn rhyfeddol hefyd! Mae llyfrau rysetiau, cylchgronau a llyfrau crefft yn cynnig cyfoeth o bosibiliadau i ddatblygu llythrennedd a sgiliau bywyd, a'r cyfan drwy gael hwyl.

RHOWCH DDEWIS I BLANT

Mae ymchwil yn dangos bod plant yn ymwneud fwy, yn dysgu mwy ac yn gwneud mwy o ymdrech wrth ddewis darllen deunyddiau eu hunain. Mae hyn yn wir i blant ifanc iawn hyd yn oed a phryd mae'r dewis yn finimol, fel dewis eu llyfr dewisol o ddau opsiwn.

RHOWCH GYNNIG AR BODLEDIADAU A LLYFRAU LLAFAR

Mynd ar wyliau gyda'r teulu neu ar daith hir? Mae llyfr llafar teuluol yn ateb perffaith i gadw teithwyr yn hapus a gyrwyr yn effro yn ystod teithiau car hir. Ar egwyliau neu rhwng teithiau, bydd pawb wrth eu bodd yn siarad am y stori a rhagfynegi beth fydd yn digwydd nesaf!

DARLLENWCH WRTH Y BWRDD BWYD!

Efallai na fydd eich Anti Primrose posh yn cymeradwyo, ond fel y dywedodd Katherine Hepburn, "os ydych yn ufuddhau i bob rheol, rydych yn colli allan ar yr hwyl". Neilltuwch un neu ddau pryd bwyd yr wythnos fel 'prydau darllen', lle anogir darllen wrth y bwrdd bwyd. I wneud hyn yn arbennig iawn, gallech gynllunio'r pryd bwyd o gmpas thema lenyddol a gadael i bawb helpu gyda'r coginio.